Spit & Sawdust - Artist opportunity
24 Hour Residency

About the Project

A 24 hour residency.

Start time: 7pm Sunday 5th August 2018
End time: 7pm Monday 6th August 2018

We are inviting 4 artists (or artist groups) to spend 24 hours working in the Spit & Sawdust building. For the duration of the residency the artists will have completely free reign to use any part of the indoor or outdoor space - the residency will take place during our closed hours meaning the café and skatepark areas will not be open as usual. We want artists to use this time for experimentation, development of new work, and testing work outside of a typical gallery environment.

To support and compliment the artist's activity we will facilitate a social, critical and communal space where the artists can spend time during the residency period. This reflective environment might also be used for meals and micro events (talks, performances, presentations or readings) that punctuate the night.

The residency will end with a final public event. This event is there to give the public access to the general ideas around the residency. It is an opportunity (if any of the selected artists want it) to presents the artworks and/or processes of the night, work in progress or to talk about the residency and the activity that has taken place.

This is the second 24 Hour Residency at Spit & Sawdust. We offer these opportunities as many artists have work, family or other commitments, which mean taking on residencies of a longer duration can be difficult. Also, we know that offering this short, concentrated and intensive time to experiment within a critical and supportive environment, with no pressure for outcomes, can be a catalyst for artistic practice and development.

The Artists

We are interested in working with artists who want to test their work in unusual situations, artists interested in architecture, day/night cycles, engaging with people and places outside of gallery systems, or the wider politics of urban space.

We hope the short timescale will encourage the selected artists to approach their work in experimental and risk-taking ways. There is no expectation for the artists to produce finished work or work for presentation, either during the residency or at the end event.

Who can apply

Contemporary artists working with any medium can apply. You can be based anywhere, at any stage of your career, but must not be in full-time education.

You must be available to be in Cardiff for the residency period, **5th-6th August 2018**. Where possible we would also like the participating artists to attend a pre-residency meal on the evening of the **4th August** where they can see the space and meet each other without the clock ticking.

We welcome applications from artists irrespective of disability, gender, sexual orientation, marital status, family responsibility, age, race, ethnic origin, nationality (subject to issue of work permit where required), trade union membership and activity, political or religious beliefs. Please contact us if you want to receive this information / apply in a different format or if you have any questions regarding accessibility at Spit & Sawdust.

Fees and expenses

Each artist/artist group will receive a £300 artist fee. We will be able to cover the costs of some materials where required, to be agreed in advance of the residency.
Travel, accommodation and subsistence will also be provided for the time spent in Cardiff (including pre-residency meal).

How to apply

The **DEADLINE** is **midnight on 11th June 2018**
We will be contacting successful applicants on or before 18th June 2018

To apply please send:

1. **An expression of interest outlining why you would like to take part (no more than 500 words -see notes below for guidance)**
2. **A CV**
3. **Up to 5 examples of previous work. These can be in image, sound, video, web link or other relevant formats.** Please send images as jpegs or pdfs, video's as You Tube/Vimeo links, .mov files or website links and sound files as mp3.

In your **expression of interest** we'd like to know why you are interested in taking part, how you think it will benefit your practice and how your practice is relevant to the opportunity. As this is a residency over a short space of time we want to make sure the time is beneficial and productive. In your expression of interest please give a loose idea of what you would like to investigate/experiment with. This can be a rough idea based on previous work, a starting point, a specific area of interest about the space or the nature of the project or other relevant premise. We are not looking for specific or detailed proposals, just a few sentences giving an idea of what you might be interested in thinking about and exploring during your time here.

If you are interested in applying but have not visited Spit & Sawdust you can find more information on our website www.spitandsawdust.co.uk.

Email applications with the subject **'24 hr Residency'** to: **hello@spitandsawdust.co.uk**
Maximum email size 6MB. If you would prefer to post your application please contact us for the address.

This residency is supported by:

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Spit & Sawdust – Cyfle i Artist
Cynllun preswyl 24 awr

Am y Prosiect

Cynllun preswyl 24 awr.

Amser dechrau: 7.00 nos Sul Awst 5ed 2018
Amser gorffen: 7.00 nos Lun Awst 6ed 2018

Rydym yn gwahodd 4 artist (neu grwpiau artistiaid) i dreulio 24 awr yn gweithio yn adeilad Spit & Sawdust. Trwy gydol y preswyliad caiff yr artistiaid ryddid pur i ddefnyddio unrhyw ran o'r gofod mewnol neu allanol – bydd y cynllun preswyl yn digwydd tra byddwn ar gau felly fydd y caffi a'r ardal sglefrfyrddio ddim ar agor fel arfer. Dylai'r artistiaid ddefnyddio'r cyfnod hwn i arbrofi, datblygu gwaith newydd, a rhoi prawf ar waith y tu allan i amgylchedd oriel nodweddiadol.

I ategu gweithgaredd yr artistiaid byddwn yn cynnig gofod cymdeithasol, beirniadol a chymunedol lle gall yr artistiaid dreulio amser yn ystod y preswyliad. Gellid defnyddio'r amgylchedd myfyriol hwn hefyd i fwyta a chynnal mân ddigwyddiadau (sgyrsiau, perfformiadau, cyflwyniadau neu ddarlleniadau) bob hyn a hyn.

Ar ddiwedd y cynllun preswyl ceir digwyddiad cyhoeddus terfynol. Amcan y digwyddiad hwn yw rhoi cyfle i'r cyhoedd werthfawrogi'r syniadau cyffredinol ynghylch y preswyliad. Mae'n gyfle (petai unrhyw un o'r artistiaid yn ei ddymuno) i gyflwyno'r gweithiau celf a/neu brosesau'r nos, dangos y gwaith sydd ar droed neu siarad am y preswyliad a'r gweithgaredd sydd wedi digwydd.

Dyma'r ail Gynllun Preswyl 24 awr yn Spit & Sawdust. Rydym yn cynnig y cyfleon hyn gan fod gan lawer o artistiaid ymrwymiadau gwaith, teulu neu eraill, sy'n ei gwneud yn anodd mynd ar gynlluniau preswyl hirach. Hefyd, gwyddom fod cynnig y cyfnod byr, cryno a dwys hwn ar gyfer arbrofi mewn amgylchedd beirniadol a chefnogol, heb ddim pwysau i gyflawni dim, yn gallu bod yn gatalydd i ymarfer a datblygiad yr artist.

Yr Artistiaid

Mae gennym ddiddordeb mewn gweithio gydag artistiaid sydd eisiau gweld sut mae eu gwaith yn gweithio mewn sefyllfaoedd anarferol, artistiaid sy'n ymddiddori mewn pensaernïaeth, cylchoedd dydd/nos, ymgysylltu â phobl a llefydd y tu allan i systemau oriel, neu wleidyddiaeth ehangach gofod dinesig.

Gobeithiwn y bydd y cyfnod byr yn annog yr artistiaid a ddewisir i fynd at eu gwaith mewn ysbryd arbrofol gan fod yn barod i fentro. Does dim disgwyliad ar i'r artistiaid gynhyrchu gwaith gorffenedig na gwaith i'w gyflwyno, yn ystod y preswyliad nac yn y digwyddiad ar y diwedd.

Pwy gaiff wneud cais

Croesewir ceisiadau gan artistiaid cyfoes sy'n gweithio gydag unrhyw gyfrwng. Gallwch fod yn gweithio yn unrhyw le, ar unrhyw gyfnod yn eich gyrfa, ond nid mewn addysg amser llawn.

Rhaid ichi fod ar gael i fod yng Nghaerdydd am gyfnod y preswyliad, **5ed-6ed Awst 2018**. Lle bo modd fe hoffem hefyd i'r artistiaid ddod i gael swper croeso ar noson y **4ydd o Awst** lle cânt weld y lle a chwrdd â'i gilydd heb fod y cloc yn tician.

Croesewir ceisiadau gan artistiaid heb ystyried unrhyw anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teulu, oed, hil, tarddiad ethnig, cenedligrwydd (yn amodol ar gael trwydded i weithio lle bo gofyn), aelodaeth a gweithgarwch undeb llafur, credoau gwleidyddol na chrefyddol. Cofiwch gysylltu â ni os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat wahanol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chyfleuster mynediad a symud o gwmpas yn Spit & Sawdust.

Tâl a threuliau

Bydd pob artist/grŵp artistiaid yn cael tâl o £300. Byddwn yn gallu talu am gostau rhai defnyddiau lle bo'u hangen, i'w gytuno cyn y cyfnod preswyl.
Telir treuliau teithio, llety a chynhaliaeth hefyd am yr amser a dreulir yng Nghaerdydd (gan gynnwys y swper croeso).

Sut i wneud cais

Mae'r **DYDDIAD CAU** am **hanner nos ar 11 Mehefin 2018**
Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr llwyddiannus erbyn 18 Mehefin 2018

I wneud cais, anfonwch y canlynol:

1. **Mynegiad diddordeb yn amlinellu pam yr hoffech gymryd rhan (dim mwy na 500 gair – gweler y nodiadau isod am arweiniad)**
2. **CV**
3. **Hyd at 5 enghraifft o waith blaenorol. Gall y rhain fod ar ffurf llun, sain, fideo, dolen we neu fformatau perthnasol eraill.** Anfonwch unrhyw luniau ar ffurf jpeg neu pdf, fideos ar ffurf dolenni You Tube/Vimeo, ffeiliau .mov neu ddolenni gwefannau, a ffeiliau sain ar ffurf mp3.

Yn eich **mynegiad diddordeb** hoffem wybod pam mae gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, sut rydych chi'n meddwl y bydd eich ymarfer yn elwa a sut mae eich ymarfer yn berthnasol i'r cyfle hwn. Gan mai preswyliad dros gyfnod byr yw hwn mae arnom eisiau sicrhau bod yr amser yn fuddiol a chynhyrchiol. Yn eich mynegiad diddordeb rhowch syniad bras o'r hyn yr hoffech ymchwilio iddo/arbrofi ag ef. Gall hyn fod yn syniad bras seiliedig ar waith blaenorol, yn fan cychwyn, yn faes diddordeb penodol ynghylch y gofod neu natur y prosiect, neu ryw ragosodiad arall perthnasol. Nid ydym yn edrych am gynigion penodol na manwl, dim ond ychydig frawddegau'n rhoi amcan o'r hyn y gallech fod â diddordeb mewn meddwl amdano a'i archwilio yn ystod eich amser yma.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais ond nad ydych wedi bod yn Spit & Sawdust o'r blaen, gallwch gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan, www.spitandsawdust.co.uk.

Ceisiadau drwy ebost â'r testun **'Cynllun preswyl 24 awr'** i: **hello@spitandsawdust.co.uk**
Ni ddylai'r ebost fod yn fwy na 6MB. Os byddai'n well gennych bostio'ch cais, cysylltwch â ni i gael y cyfeiriad.

Cefnogir y cynllun preswyl hwn gan:

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru